**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 20 Mawrth 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | C M J Evans | E W Fitzgerald |
| P R Hood-Williams | L James | J W Jones |
| M W Locke | W G Thomas | M S Tribe |
| T M White | | |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Robert Francis - Davies | Aelod y Cabinet dros Adfywio a Thwristiaeth |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Phillip Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Huw Mowbray | Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol |
| Paul Relf | Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): D H Jenkins a/ac M H Jones

---

36 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

37 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim.

38 **Cofnodion**

Cytunodd y Panel ar y cofnodion o gyfarfodydd blaenorol.

## 39 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

## 40 Adroddiad Archwilio Cymru - Adfywio Canol Trefi

Roedd Robert Francis-Davies, Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a Paul Relf, Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol yn bresennol i drafod yr eitem hon. Gwnaed y pwyntiau canlynol –

- Mae adroddiad Archwilio Cymru yn myfyrio ar nifer o ddegawdau ac yn nodi anghenion a defnyddiau newidiol canol dinasoedd ar draws Cymru. Nid yw'r adroddiad yn ymdrin ag unrhyw beth oedd yn anhysbys neu'n anghyfarwydd i Aelodau a swyddogion y cyngor.
- Mae'r cynnydd yng nghanol dinas Abertawe yn gadarnhaol o'i gymharu â dinasoedd eraill, ac mae uchelgais i Abertawe barhau i dyfu a datblygu.
- Mae mwy a mwy o gynlluniau yn y sector preifat gyda chyllid ychwanegol i lenwi'r bwlch dichonoldeb a all fod yn gymysgedd o fenthyciadau a grantiau. Mae hyn yn helpu i leihau risg a galluogi buddsoddiadau yn y sector preifat.
- Mae 95% o'r busnesau yn Abertawe'n microfusnesau, sy'n cael eu diffinio fel y busnesau hynny sy'n cyflogi llai na 250 o staff.
- Mae angen newid canol y ddinas dros amser ac mae cael y cydbwysedd iawn yn allweddol. Wrth symud ymlaen bydd canol y ddinas yn darparu cymysgedd o ddefnyddiau gyda mannau hyblyg y gellir eu newid wrth i anghenion newid. Mae unedau llai wedi bod yn boblogaidd. Ychwanegwyd tai uwchben siopau gan ffurfio cymunedau newydd a chynyddu masnach.
- Mae sianeli cyfathrebu gyda chyrff cyhoeddus yn bwysig gyda deialog ar draws pob sector yn rhoi ystyriaeth i fframweithiau caffael, yn enwedig pan fo adnoddau'n brin. Mae hyn yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud yn gyflym pan fo angen.
- Mae canol y ddinas a'r canolfannau ardal yn gymwys am gymorth gan y grant creu lleoedd ac i greu Cynllun Cynefin. Mae gan Gynlluniau Cynefin dempled y cytunwyd arno ar gyfer llunio sy'n cymryd ymagwedd sy'n seiliedig ar weithredu.
- Abertawe yw'r defnyddiwr mwyaf o'r Gronfa Benthyciadau Canol Trefi yng Nghymru
- Caiff Cynlluniau Camau Gorfodi eu creu gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, sy'n cefnogi penderfyniad cyn gorfodi.
- Mae'r Gronfa Adferiad Economaidd hefyd wedi bod yn ffynhonnell cyllid defnyddiol ac mae'n cefnogi microfusnesau ar draws y sir.
- Mae'r adroddiad archwilio'n tynnu sylw at y ffaith nad yw'r Polisi Canol Trefi yn Gyntaf wedi'i wreiddio'n llawn eto. Mae'r cyngor yn defnyddio Cynlluniau Cynefin i dynnu holl wahanol linynnau'r polisi hwn at ei gilydd. Mae hon yn daith barhaus i gadw'r holl bethau hyn yn gytbwys, i wrando ar yr hyn y mae pobl am ei gael a symud pethau ymlaen i'r cyfeiriad cywir.
- Archwiliad Cymru Gyfan yw hwn, yr un cyntaf a gynhaliwyd ers tro yn y sector hwn. Byddai cymariaethau yn erbyn Awdurdodau Lleol eraill mewn perthynas â'r archwiliad yn ddefnyddiol ond nid ydynt ar gael.

- Byddai canllawiau a strategaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol yn ddefnyddiol i liniaru'r ymagwedd anghyson ar draws Cymru, y sonnir amdano yn yr Adroddiad Archwilio.
- Mae'r buddsoddiad sylweddol yn Abertawe yn unigryw ac mae angen ei drin felly, mae angen newid mawr ac mae angen gwario llawer o arian i gyflawni hyn.

41 **Adroddiad Monitro Rhaglenni/Prosiectau Adfywio**

Cyflwynwyd yr adroddiad monitro rheolaidd diweddaraf ar y rhaglen / prosiectau adfywio i'r Panel, ar gyfer unrhyw sylwadau / safbwyntiau ar gynnydd a chyflawniadau. Rhoddodd Huw Mowbray, Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol, ddiweddariadau perthnasol am y canlynol:

Bae Copr:

- Mae gwaith i nodi mân broblemau'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd gyda chostau'n cael eu talu gan y contractwr.
- Mae gwerthiant tocynnau yn yr Arena wedi cynyddu i dros 200,000. Mae gwerthiannau'n gadarnhaol ac mae cynlluniau i ddod yn rhan o'r farchnad gynadleddau.
- Mae penderfyniadau'n parhau ar Floc y Gogledd, mewn perthynas â'r paent ar y gwaith dur.
- Mae'r lle a ddelir gan y lleoliad yn amrywio gan ddibynnu ar nifer y bobl sy'n eistedd neu'n sefyll.
- Cafwyd problemau ariannol gyda'r gwesty fodd bynnag mae ganddo ddatblygwr yn awr. Mae benthyciad canol trefi wedi'i sicrhau i helpu i gyflwyno'r gwesty, a chaiff adroddiad ei gyflwyno i'r Cabinet maes o law.
- Bydd gwestai eraill yn y ddinas yn helpu gwerthiannau tocynnau yn yr Arena yn y dyfodol. Adnewyddwyd y Marriott yn ddiweddar hefyd.
- Mae'r bont newydd gyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr gynllunio.
- Nodwyd gwaith cynnal a chadw ar gyfer y parc chwarae ac rydym yn aros am adnoddau.

Adfywio Abertawe:

- Gan y bu'r cais i Gronfa Codi'r Gwastad yn aflwyddiannus, mae trafodaeth yn parhau â Llywodraeth Cymru ynghylch ffynonellau ariannu eraill. Bydd rownd arall o ymgeisio ar gyfer Cronfa Codi'r Gwastad.

Gogledd Abertawe Ganolog

- Mae sgyrsiau'n mynd rhagddynt gydag Urban Splash ynglŷn â'r rhaglen gyflawni a'r strategaeth ar gyfer cam cyntaf y datblygiad.
- Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â Llywodraeth Cymru ynglŷn ag elfen fach o gyllid llenwi bwlch lle byddai mwyafrif y cyllid yn cael ei ddarparu gan y sector preifat drwy gwmni Urban Splash.
- Mae ceisiadau i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r gronfa Trawsnewid Trefi hefyd yn cael eu datblygu.

71-72 Ffordd y Brenin:

- Mae'r gwaith adeiladu'n datblygu'n dda. Mae'r gwaith adeiladu bellach wedi cyrraedd lefel y llawr cyntaf.

- Mae 25,000 troedfedd sgwâr wedi'i osod ar hyn o bryd, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gaffael asiantiaid gosod a brandio i farchnata'r gweddill.
- Cafwyd rhai problemau yn y gadwyn gyflenwi ond mae gan y cyngor gontract pris sefydlog, a gwneir cyfaddawdau gyda'r datblygwr pan fo'n briodol.

Ailddatblygiad y Ganolfan Ddinesig.
- Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda Cadw ynghylch y posibilrwydd o wneud y Ganolfan Ddinesig yn adeilad rhestredig.
- Mae Urban Splash yn gweithio ar ddyluniadau.

TAN 15 Datblygu a Pherygl o Lifogydd:
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad eto ac mae'r drafft gwreiddiol wedi'i atal.
- Bu rhai newidiadau sylweddol yn ymagwedd Llywodraeth Cymru ac mae ymdeimlad cadarnhaol y bydd y drafft newydd yn sicrhau cydbwysedd gwell rhwng perygl llifogydd a datblygiad.
- Bydd TAN 15 yn effeithio ar y trefi a'r dinasoedd arfordirol niferus yng Nghymru ac nid Abertawe yn unig.
- Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a swyddogion cynllunio wedi gwneud nifer o argymhellion.

Skyline
- Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol wedi'i gwblhau gyda nifer mawr o bobl yn pleidleisio gydag ymateb cadarnhaol ar y cyfan. Bydd adroddiadau ymgynghori'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio gyda nod o gyflwyno'r cais ym mis Gorffennaf 2023.
- Yn ogystal â grant o £3 miliwn gan Lywodraeth Cymru, mae trafodaeth am gyllid yn parhau gyda Skyline. Mae Skyline yn cyfrannu tua £36m, fodd bynnag er mwyn bodloni eu cyfradd enillion fewnol, efallai y bydd angen buddsoddiad pellach.
- Bydd pàs blynyddol i breswylwyr Abertawe ar gael am £40.
- Mae disgwyl i'r gwaith adeiladu ddechrau tua Rhagfyr 2023/Ionawr 2024.
- Mae'r adran Briffyrdd yn parhau i edrych ar opsiynau ar gyfer y safle parcio a theithio ac yn parhau i gael trafodaethau parhaus â'r stadiwm.

Ailddatblygu Pwerdy Gwaith Copr yr Hafod:
- Mae Penderyn wedi meddiannu'r safle'n rhannol. Dechreuodd y gwaith gosod unedau ym mis Chwefror.
- Disgwylir penderfyniad ynghylch cyllid pellach i dalu costau ychwanegol cyn bo hir.

Adeilad y labordy:
- Mae hyn yn barod i'w adnewyddu. Gan fod y cais i Gronfa Codi'r Gwastad wedi'i gadarnhau, mae trafodaethau'n cael eu cynnal i symud y datblygiad hwn yn ei flaen.

Cwm Tawe Isaf
- Mae timau'n dechrau cael eu sefydlu ar gyfer y datblygiad hwn a chanddo ddyddiad cwblhau amcangyfrifedig o fis Mawrth 2023.
- Bydd rhagor o fanylion am y datblygiad hwn yn cael eu darparu maes o law.

Theatr y Palace.

- Y dyddiad cwblhau amcangyfrifedig yw diwedd 2023.
- Mae'r rhaglen yn dal i gael ei datblygu fodd bynnag y targed ar gyfer ei chwblhau yw Rhagfyr 23/Ionawr 24.
- Mae'r datblygiad hwn wedi cael adborth cadarnhaol gan yr Ymddiriedolaeth Theatrau.
- Mae Tramshed wedi cytuno i brydlesu'r adeilad.

Mewnfuddsoddi

- Cynhaliodd y cyngor ddiwrnod gyda Thîm Buddsoddi Llywodraeth Cymru er mwyn tynnu sylw at gynnig Abertawe.

Pontŵn y Gwaith Copr:

- Mae canllawiau ochr yn cael eu gosod ar hyn o bryd. Bydd y gwaith o osod goleuadau ar hyd rhan o'r llwybr troed yn cael ei gwblhau cyn bo hir.
- Mae'r brydles ar Ystâd Dug Beaufort wedi'i chwblhau.
- Mae ymchwiliadau safle'n cael eu cynnal.
- Mae gwaith arolygu wedi cychwyn ar y rhodfa tuag at ardal Yr Hafod.
- Mae tri phontŵn arall hefyd yn cael eu datblygu. Mae Urban Splash yn datblygu un ar ochr St Thomas o'r afon, a bydd dau bontŵn arall ar y Stryd Fawr a ger y Stadiwm. Nid oes unrhyw amserlen ar gyfer y rhain ar hyn o bryd a byddant yn rhan o gam datblygu hwyrach.
- Mae gwaith atgyweirio ar y Bont Wrthbwys gerllaw yn mynd yn ei flaen.

42 **Cynllun Gwaith 2022/23**

Nododd y panel y Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.31am

**Cadeirydd**